Y CYTUNDEB SECTOR SGILIAU

Y Cynllyn Gweithredi am Gymru

Sgiliau Heini yw'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Hamdden a Dysgu Egnïol, sy'n cwmpasu diwydiannau yn y sectorau canlynol ar draws y DU:

Chwaraeon a Hamdden, Gwaith Chwarae, Iechyd a Ffitrwydd, Yr Awyr Agored, Carafannau.

Mae Cytundebau Sgiliau Sector yn dwyn ynghyd gyflogwyr a darparwyr/cyllidwyr addysg a hyfforddiant gyda'r prif fwriad o ddatblygu system o fuddsoddi cyhoeddus mewn sgiliau ar gyfer y sector sy'n cael ei harwain yn fwy gan alw, wedi'i chyfuno â chynnydd yn ymrwymiad cyflogwyr i ddatblygu'r gweithlu.

Yn benodol, bydd Cytundebau Sgiliau Sector yn:

- Cynnig cyfrwng i gyflogwyr ac i'r llywodraeth gydweithio i fodloni prif anghenion sgiliau sectorau'r diwydiant.
- Cyflwyno cyfle dilys i gyflogwyr lywio'r ddarpariaeth hyfforddi a llwybrau dilyniant cydlynol.
- Herio cyflogwyr i weithio ar y cyd ar draws sectorau.
- Rhoi hawl i unigolion gyrchu hyfforddiant sy'n berthnasol i anghenion y diwydiant, a helpu i sicrhau swyddi sy'n talu'n dda a dilyniant.

Ar ôl ymgymryd ag ymchwil ac ymgynghori helaeth gyda chyflogwyr allweddol y sector, mae Sgiliau Heini erbyn hyn yn gweithredu i roi cynigion y Cytundeb Sgiliau Sector ar waith yng Nghymru gyda chefnogaeth prif randdeiliaid y sector dysgu a sgiliau. Mae dogfennau perthnasol i'w gweld ar www.skillsactive.com.

Proffil o'r sector yng Nghymru

- Roedd Hamdden a Dysgu Egnïol wedi cyfrannu £400 miliwn mewn allbwn i economi Cymru yn 2004 – mae'r twf wedi bod dros un y cant yn gynt na thwf economi Cymru, bob blwyddyn, dros y pum mlynedd diwethaf[1]
- Mae pum sector Sgiliau Heini yn cyflogi 27,000 o gyflogeion am dâl mewn dros 2,100 o sefydliadau ar draws Cymru
- Bu twf cryf mewn cyflogaeth yn y pum mlynedd diwethaf – mwy na dwbl twf pob diwydiant yng Nghymru
- Mae'r sector yn cynnwys sefydliadau micro (74%) a Chwmnïau Bach a Chanolig eu maint, gyda llai nag 1% o gyflogwyr yn cyflogi dros 250 o weithwyr
- Disgwylir i'r sector barhau i berfformio'n well nag economi Cymru hyd 2008 ac yna cwympo islaw'r economi gyfan - gan gyrraedd allbwn o dros £505 miliwn yn 2014
- Rhagwelir y bydd trosiant blynyddol staff tua 13%, ac wedi'i gyfuno â'r twf mewn cyflogaeth, bydd o leiaf 40,900 o gyfleoedd am swyddi (am dâl) rhwng 2004 a 2014 yn deillio o hyn
- Mae bron i hanner y gweithlu sy'n cael eu talu yn gweithio'n rhan-amser o gymharu â bron i chwarter yr economi gyfan
- Mae 59% o'r cyflogeion yn fenywod, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 47%
- Mae llai nag 20% o'r gweithlu o dan 25, marchnad sy'n fwyfwy cystadleuol i gyflogeion. Mae 24% rhwng 35 a 44 oed a 32% rhwng 45 a 59 oed
- Mae tua 5.8 miliwn o wirfoddolwyr yn gweithio ar draws y DU. Chwaraeon yw'r sector unigol mwyaf ar gyfer gwirfoddoli gan gyfrif am tua 28% o'r holl waith gwirfoddol a wneir
- Mae 70,000 o hyfforddwyr yng Nghymru, ac mae 84% o'r rhain yn wirfoddolwyr â dim ond 11,200 mewn gwaith am dâl
- Mae dros 4 o bob 10 hyfforddwr yn meddu ar ryw fath o gymhwyster hyfforddi
- Oedran hyfforddwyr ar gyfartaledd yw 37, ac mae a wnelo hynny'n uniongyrchol â rhwystrau i gael arian ar gyfer hyfforddiant

Anghenion y sector yng Nghymru

1. Gwella Ansawdd ac Ystod y Gwasanaethau

- Gwthio Cyson i Fodloni Agendâu'r Llywodraeth a Disgwyliadau Cwsmeriaid
- Cydnabyddiaeth Well o Werth Gwaith Chwarae
- Arian Cyhoeddus mwy Cynaliadwy ar gyfer Gwasanaethau
- Ateb Her Sgiliau Gêmau Olympaidd a Gêmau Paralympaidd 2012

2. Gwella Recriwtio a Chadw Staff

- Rhaglen o Gyngor/Arweiniad Gwell am Yrfaoedd
- Datblygu Llwybrau Dilyniant Gyrfa Clir
- Archwilio Gwelliannau i Dâl a Thelerau
- Pasportau Sgiliau
- Buddsoddi mewn Sgiliau Sylfaenol i Gynorthwyo Dilyniant
- Adnabod gwerth a chyfraniad gwirfoddolwyr

3. Proffesiynoli a Gwella Sgiliau'r Gweithlu Presennol

- Ehangu'r Cofrestri – Ffitrwydd/Gwaith Chwarae proffesiynol presennol a chyflwyno rhai newydd
- Gwella Canran yr Hyfforddwyr sydd â Chymhwyster
- Gwella Sgiliau'r Gweithlu Presennol

4. Cyflenwad yn ateb y Galw

- Rhaglen i Wella Ansawdd Hyfforddiant AB yn ein Sector
- Rhaglen i Wella Cyflogadwyedd Graddedigion (Gwyddor/Astudiaethau Chwaraeon)
- Datblygu Cymwysterau Newydd, lle bo'r angen
- Gwella Safoni a Throsglwyddedd Cymwysterau
- Canolfannau dysgu yn gysylltiedig â rhwydweithiau cyflogwyr e.e. Coleg Glan Hafren
- Sicrhau bod fframwaith cymwysterau sy'n seiliedig ar gredydau yn bodoli

1 The Future of Active leisure and Learning, Experian Business Strategies, 2005

5. Ailgyfeirio Cyllid ar gyfer Hyfforddiant

- Lleihau'r rhwystrau i Gyrchu Hyfforddiant – mwy o hyfforddiant lleol, hyblyg, yn y gwaith
- Cyllid ar gyfer Cymwysterau Hyfforddi
- AASE – Cyllid ar gyfer Prentisiaethau Uwch mewn Rhagoriaeth Chwaraeon
- Cyllid ar gyfer hyfforddiant i Newidwyr Swydd a Gwirfoddolwyr
- Cyllid cydgysylltiedig
- Cydraddoldeb Cyllido ar gyfer UKCC ar draws y DU
- Sicrhau casglu credydau cyllid o fewn y fframweithiau newydd

6. Cynyddu Buddsoddiad y Sector yn ein Pobl

- Archwilio Profiad Gwaith o Ansawdd i Fyfyrwyr, Tiwtoriaid ac Aseswyr
- Annog y Defnydd o Offer Cynllunio Datblygu'r Gweithlu gan Gyflogwyr
- Cynyddu Lefelau Hyfforddi yn y Sector
- Profiad Gwirfoddoli wedi'i Fentora a'i Asesu
- Gwella'r Ddealltwriaeth a'r Defnydd o Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol
- Ymgorffori Hyfforddiant mewn Contractau Ariannu Prosiectau

Llwyddiannau Allweddol

1. Canolfan Dysgu Sgiliau Heini

Yn dilyn cais llwyddiannus i Gronfa Ddatblygu Sgiliau ELWa mae Canolfan Ddysgu Sgiliau Heini wedi cael ei datblygu yn Ne Cymru ac mae'n gweithredu o Goleg Glan Hafren, sef coleg trydyddol mwyaf Caerdydd. Nod y Ganolfan Ddysgu yw trefnu atebion hyfforddi i gyflogwyr yn y sector Hamdden a Dysgu Egnïol, a'i nod yw sicrhau bod cyflenwad yn ateb y galw ar lefel leol.

Seiliwyd y Ganolfan Ddysgu ar ymgynghori dwys â chyflogwyr ac mae wedi caniatáu i Sgiliau Heini weithio gyda chyflogwyr i nodi ac i fynd i'r afael â bylchau a phrinderau perthnasol mewn sgiliau fel ei gilydd. Bydd y datblygiad hwn yn cael effaith gadarnhaol ar yr agenda economaidd ac ar yr agenda cynhyrchiant ar draws Cymru.

Mae ymchwil fel rhan o broses y Cytundeb Sgiliau Sector wedi nodi dyhead ymysg cyflogwyr i sicrhau bod manteision y Ganolfan Ddysgu o fewn cyrraedd ym mhob cwr o Gymru. Felly, byddwn ni'n edrych ymlaen at weithio gyda LICC mewn ymdrech i ddatblygu'r fenter lwyddiannus hon ar draws Cymru.

2. REPs yng Nghymru

Yn dilyn ymgynghori trylwyr â chyflogwyr, mae Sgiliau Heini wedi llwyddo i sicrhau cyllid oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu Cofrestr o Swyddogion Ymarfer Proffesiynol (REPs) yng Nghymru. Mae REPs yn gwmni y mae Sgiliau Heini yn berchen arno'n llwyr ac fe'i sefydlwyd fel mecanwaith sicrwydd ansawdd i helpu diogelu a hyrwyddo iechyd a diddordebau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau swyddogion, athrawon a hyfforddwyr ymarfer corff a ffitrwydd.

Mae Cyngor Chwaraeon Cymru a Sgiliau Heini hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth i greu Cyngor Ymarfer Cymru (ECW), sef sefydliad datblygu a fydd yn creu 'siop un stop' i broffesiynolion ymarfer a chyflogwyr Cymru.

Gweithredu pellach i Gymru

Mae cyfres o gamau blaenoriaeth wedi dod allan o broses ymchwil y Cytundeb Sgiliau Sector ac mae Sgiliau Heini yn edrych ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno rhaglenni perthnasol a'u rhoi ar waith i ymateb i anghenion cyflogwyr yn y sector Hamdden a Dysgu Egnïol. Mae enghreifftiau o'r prif raglenni wedi'u crynhoi isod.

THEMA	RHAGLEN
Gwella Ansawdd ac Ystod Gwasanaethau	Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru i archwilio'r dewisiadau o ran sefydlu rôl ymarferwr gweithgarwch corfforol ar sail y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, wedi'i theilwra i gynnwys hyrwyddo maeth ac iechyd er mwyn bodloni anghenion penodol cyflogwyr yng Nghymru Cyfrannu at ddatblygu ymgyrch hyrwyddo Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth ddatblygu ar ran y sector Gwaith Chwarae yng Nghymru
Gwella Recriwtio a Chadw Staff	Archwilio ateb i wella lefelau cadw staff drwy ddatblygiad gyrfa wedi'i gynllunio ar gyfer unigolion. Archwilio prosiect peilot posibl, drwy gyllid Ewropeaidd, i ddylanwadu ar ariannu AB gwirfoddolwyr yn y dyfodol.
Proffesiynoli a gwella sgiliau'r gweithlu presennol	Archwilio'r posibiliadau o ran dylanwadu ar y cyllid presennol sydd ar gael i gymunedau i ganolbwyntio'r gefnogaeth ar fuddsoddi mewn hyfforddiant ynghyd â buddsoddi mewn offer a chyfleusterau, yn enwedig i hyfforddwyr chwaraeon, ac mewn hyfforddiant sgiliau ar gyfer hyfforddi mewn cyd-destun cymdeithasol. Mewn cyswllt â REPs, archwilio prosiect a fydd yn gwella lefelau sgiliau swyddogion ffitrwydd o Lefel 2 i Lefel 3. Bydd hyn yn sicrhau digon o broffesiynolion ar Lefel 3 i gefnogi rhaglen gyfeirio at ymarfer LICC. Ehangu cofrestri proffesiynol a chyflwyno rhai newydd ym meysydd Ffitrwydd a Gwaith Chwarae.
Cyflenwad yn ateb y galw	Cefnogi lansio'r Ganolfan Gwaith Chwarae Genedlaethol. Cyfraniad penodol i gynnwys datblygu hyfforddwyr ac aseswyr y mae eu hangen i gefnogi unrhyw hyfforddi drwy gyfrwng y ganolfan. Ymestyn y Ganolfan Ddysgu i ganolbarth a gogledd Cymru. Cychwyn trafodaethau gyda darparwr rhwydwaith yn y ddwy ardal i sefydlu consortiwm/dull prif ddarparwr i gyflwyno'r ddarpariaeth yn y sector Hamdden a Dysgu Egnïol.
Ailgyfeirio Cyllid ar gyfer Hyfforddi	Archwilio sut gellir defnyddio'r ddarpariaeth bresennol i gefnogi gwirfoddolwyr sy'n gweithredu yn y sector i ennill Tystysgrif Hyfforddi'r DU.
Cynyddu buddsoddiad y sector yn ein pobl	Archwilio'r potensial mewn Cynllun Rhannu Prentisiaeth Peilot i fynd i'r afael â chyfleoedd gweithio ar draws y sector sy'n cymryd gwaith tymhorol ac arallgyfeirio gan fusnesau i ystyriaeth, drwy gynnig yr ystod lawn o weithgareddau Sgiliau Heini gan gynnwys môr, d_r, mynyddoedd ar gyfer yr Awyr Agored, wedi'u cysylltu â chyfarwyddyd ffitrwydd, hyfforddiant chwaraeon neu "enillion iechyd" i bobl eisteddog.

SGILIAU HEINI
SkillsActive

skills FOR BUSINESS

(CO) Cyngor Chwaraeon Cymru
Athrofa Chwaraeon Cymru
Gerddi Sophia
Caerdydd CF11 9SW

T +44 (0)29 20644526
E richard.tobutt@skillsactive.com
www.skillsactive.com